

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research 19/2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd - Adroddiad Blwyddyn 3 Terfynol



**Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i
Deuluoedd
Adroddiad Blwyddyn 3 Terfynol**

**SQW
Graham Thom and Luke Delahunty**

**Ipsos MORI
Paul Harvey and Jon Ardill**

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

Janine Hale

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays Caerdydd

CF10 3NQ

Ffon: 029 2082 6539

Ebost: janine.hale@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014

ISBN 978-1-4734-1150-0

© Hawlfraint y Goron 2014

Crynodeb Gweithredol

Ym mis Awst 2010 penodwyd SQW, gyda chefnogaeth Ipsos MORI a'r Athro Geoff Lindsey o'r Ganolfan ar gyfer Datblygiad, Gwerthusiad ac Ymchwil Addysgol (CEDAR) ym Mhrifysgol Warwick, i gynnal gwerthusiad o'r model Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS). **Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn cyflwyno casgliadau'r drydedd flwyddyn, a blwyddyn derfynol, y gwerthusiad, yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2012 hyd fis Mawrth 2013.** Mae gwybodaeth fanwl am y model IFSS a chefnidir y broses werthuso wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Interim Cyntaf¹, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012. Cyhoeddwyd Ail Adroddiad Interim ym mis Chwefror 2013.

Casgliadau allweddol y gwerthusiad a materion i'w hystyried

Datblygiadau yn ystod trydedd flwyddyn, a blwyddyn derfynol, Cam un

Mae'r cyd-destunau strategol a gweithredol ar gyfer y tri safle Cam un wedi newid yn sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gyflwyniad IFSS ar draws Cymru gyfan, sydd wedi creu ychydig o darfu yn lleol, nid y lleiaf wrth i rai aelodau'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFST) symud i ddechrau swyddi mewn timau newydd ac ansicrwydd ynglŷn â threfniadau lleol i'r dyfodol ac ariannu y tu hwnt i fis Mawrth 2014.

Mae'r IFST yn safleoedd 1 a 3 wedi lleihau'n sylweddol yn eu maint yn ystod blwyddyn derfynol y cam hwn. Dros yr un cyfnod, mae maint yr IFST yn Safle 2 wedi parhau heb newid. Er bod rhai sgiliau a gallu wedi cael eu colli o'r safleoedd o ganlyniad i newid mewn staff, **mae'r gweithwyr IFST sy'n weddill wedi parhau i ddatblygu a dod yn fwyfwy profiadol ac arbenigol mewn darparu IFSS.**

¹ Mae adroddiadau ar wahân yn cwmpasu blynyddoedd 1 a 2 o'r broses werthuso wedi eu cyhoeddi a gellir eu cyrchu drwy wefan Llywodraeth Cymru: <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-integrated-family-support-service/?lang=en>

Mae Byrddau a Grwpiau Gweithredol IFSS wedi parhau i gyfarfod a theimlwyd eu bod yn effeithiol, er mai cymysg oedd y presenoldeb ynddynt. Mewn un achos ataliwyd y Grŵp Gweithredol oherwydd teimlwyd nad oedd digon o faterion neu ddiddordeb i'w gwneud hi'n angenrheidiol iddo gyfarfod nawr bod y cam sefydlu wedi mynd heibio. Mae agendâu Bwrdd IFSS wedi canolbwyntio'n drwm ar ariannu ôl Cam un a materion cynllunio strategol cyflwyno'n rhanbarthol, gyda llai o bwyslais ar faterion gweithredol o ddydd i ddydd.

Mae cytundebau Adran 58 wedi eu datblygu ym mhob un o'r tri safle, ond hyd yma ni fu unrhyw achos i ddefnyddio'r rhain oherwydd bod partneriaid ar y cyfan wedi prynu i mewn i'r model IFSS. Yn wir, mae'r dystiolaeth yn awgrymu, yn weithredol o leiaf, bod lefelau ymwybyddiaeth ac ymrwymiad partneriaid i'r IFSS wedi tyfu, yn bennaf oherwydd gwaith datblygu cysylltiadau aelodau'r IFST.

Ym mlwyddyn 3, gwelwyd ychydig o ostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i'r IFSS o gymharu â'r swm a gofnodwyd ym mlwyddyn 2. Fodd bynnag, mae'r **data monitro yn dangos bod ansawdd yr atgyfeiriadau ym mlwyddyn 3 wedi gwella, wrth i gyfran uwch o'r achosion hyn (92%) symud i Gam 1.** Mae hyn yn adlewyrchu gwell ymwybyddiaeth o'r rhaglen a'r prynu-i-mewn iddi gan dimau Gweithwyr Cymdeithasol sy'n atgyfeirio.

Mewn dau o'r safleoedd, **bu'n rhaid i'r IFST ddefnyddio rhestr aros oherwydd bod y galw yn uwch na'r gallu**, er mewn un achos roedd hyn yn adlewyrchu lleihad sylweddol ym maint yr IFST. Achosodd rhestrau aros beth rhwystredigaeth o gofio pwysigrwydd darparu ymyrraeth yn brydlon. Derbyniwyd achosion ar sail y mwyaf priodol, yn bennaf o ran parodrwydd neu ysgogiad teuluoedd i newid, pan fyddai gallu ar gael.

Mae cyfradd uchel o gysondeb o ran nifer yr achosion a gofnodwyd fel rhai a dderbyniwyd i Gam 1 rhaglen IFSS (47- 49 ar draws y tri safle Cam un) ym mlwyddyn 3. Mae'r cysondeb hwn yn gyferbyniol â'r data cyd-destunol sy'n dangos amrywiad (645 – 2,435) yn nifer y Plant mewn Angen cofrestredig ar draws yr ardaloedd.

Mae swm yr achosion a dderbyniwyd i Gam 1 yn cynrychioli cynnydd mewn trwygyrch o tua 50% o'i gymharu â'r perfformiad ym mlwyddyn 2.

Cyflawnwyd hyn â thimau sylweddol lai mewn dwy ardal. Mae'n awgrymu y gallai fod gormodedd o allu yn y ddau safle yma yn y blynyddoedd blaenorol.

Mae'r IFST ym mhob safle wedi gorfod adolygu pryd y byddant yn derbyn achosion a faint y gallant eu prosesu ar unrhyw un adeg. Mae rhai safleoedd wedi symud tuag at y drefn o ymarferwyr yn cael dau achos ar y tro, gydag un yn gorffen ac un yn dechrau, er mwyn ymdopi â'r galw. Mae'r dull hwn fel petai'n gweithio.

Mae amrywiad a hyblygrwydd parhaus yn y modd y darparwyd yr IFSS ar draws safleoedd Cam un, er bod y dull a'r ffyrdd o weithio cyffredinol yn debyg iawn. Yn Safle 1 a Safle 3, roedd y cyfnod dwys fel arfer yn para am chwe wythnos, ac yn Safle 2 roedd yn tueddu i fod yn fyrrach, sef pedair wythnos, er y gallai peth gwaith gael ei wneud dros wythnos gyntaf Cam 2.

Yn ogystal, **bu rhai newidiadau strwythurol yn y modd y caiff y model ei roi ar waith.** Er enghraifft, yn Safle 1, cyflwynwyd dull panel adnoddau ar gyfer atgyfeirio rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn, ac yn Safle 2 neilltuwyd gweithwyr IFST i greu rhwydweithiau mewn ardaloedd daearyddol penodol. Mae'r safleoedd hefyd wedi ceisio rhoi mwy o strwythur ac eglurder i wasanaethau ehangach yn ystod Cam 2. Yn un o'r safleoedd, cyflwynwyd lleihad graddol mewn mewnbwn gweithwyr IFST fel rhan o ymdrechion ehangach i gynorthwyo i reoli'r pontio o Gam 1 i 2.

Llwyddiannau a chyflawniadau allweddol

Cynhyrchwyd a dadansoddwyd swm sylweddol o dystiolaeth fel rhan o'r broses werthuso hon. O'i gymryd yn ei grynsyth, mae'n dangos fod y **dull IFSS fel petai'n gwella canlyniadau tymor byr ar gyfer nifer dda o deuluoedd**, fel y gwelwyd gydag ymyriadau dwys cymorth i deuluoedd tebyg mewn mannau eraill.

Roedd y tuedd cyffredinol gyda'r Sgoriau Cyrhaeddiad Nod ar draws y safleoedd yn gyson, gyda chynnydd cychwynol wedi'r cyfnod dwys cyntaf ac yna cynnydd arafach rhwng un mis a chwe mis, ac ail gynnydd i'w weld ar y

cyfnod adolygiad 12 mis. Ni wyddom ar hyn o bryd i ba raddau y bydd y canlyniadau cadarnhaol hyn yn parhau i'r dyfodol, ond fe fydd hi'n ddiddordol i archwilio hyn dros y blynyddoedd i ddod.

Canfyddir bod y rhaglen wedi gweithio'n dda i rai mathau o deuluoedd, er i eraill mae'r profiad wedi bod yn un llai cadarnhaol. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr IFST ynglŷn â phwy ddylai dderbyn IFSS ac ar gyfer pa fathau o deuluoedd yr oedd y dull yn gweithio orau. Er mai dim ond un safle sydd wedi ceisio dogfennu hyn, defnyddiodd pob un o'r tri IFST ymadroddion tebyg yn gyffredinol ynglŷn â: **pwynt argyfwng; pwysigrwydd amseru; a'r ysgogiad i ymgysylltu neu newid eu hymddygiad.**

Ar draws y tri safle Cam un (ymhlith staff IFST, aelodau Bwrdd a Grwpiau Gweithredol IFSS, yn ogystal â thimau gweithwyr cymdeithasol sy'n atgyfeirio) roedd **cefnogaeth a chlod cyffredinol bron ar gyfer y rhaglen.** Yn arbennig, **teimlwyd bod yr offer a'r technegau, a'r dull cyflenwi amlasiantaeth a ddefnyddiwyd yn rhai hynod effeithiol.**

Roedd y rhan fwyaf o'r teuluoedd a gyfwelwyd yn teimlo bod y rhaglen IFSS wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan. Yn y mwyafrif o achosion, eglurodd teuluoedd bod nifer o'r materion yr oeddent wedi eu hwynebu megis camddefnydd sylweddau, problemau iechyd meddwl aciwt, problemau gyda rhianta, tai, dod o hyd i gyflogaeth, triwantiaeth plant a pherthynas yn peri problemau/camdriniol wedi cael naill ai eu datrys yn rhannol neu'n llwyr yn dilyn eu hymgysylltiad â'r IFSS.

Yn yr un modd, disgrifiodd y rhan fwyaf o deuluoedd yr **IFSS fel gwelliant sylweddol ar y gefnogaeth yr oeddent wedi ei derbyn yn flaenorol.** Teimlwyd bod ymarferwyr IFST yn fwy parod i ddod i adnabod teuluoedd ac fe'u disgrifiwyd fel llai beirniadol na gweithwyr cymdeithasol traddodiadol; rhywbeth sydd wedi cynorthwyo teuluoedd i deimlo'n fwy cyfforddus ynglŷn â bod yn fwy agored a rhannu eu problemau.

Yn ychwanegol at yr adroddiadau am fynediad effeithiol at wasanaethau, soniodd llawer o deuluoedd am **deimlo'n llawer mwy hyderus yn eu gallu i**

reoli eu problemau a'u heriau eu hunain yn y dyfodol, a hefyd roeddent nawr yn teimlo eu bod wedi eu hysgogi i wneud hynny.

Roeddent hefyd yn gallu deall yn well rhai o achosion y materion yr oeddent wedi eu profi (yn cynnwys problemau iechyd meddwl hirsefydledig, problemau caethiwed a/neu drawma o ganlyniad i blentyndod anodd, profedigaeth neu ddigwyddiadau eraill yn y gorffennol). Credai'r rhan fwyaf o'r teuluoedd a oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil eu bod yn gwneud cynnydd (i wahanol raddau) er mwyn goresgyn y problemau hyn drwy gefnogaeth eu hymarferydd IFST ac atgyfeiriadau addas at gefnogaeth ychwanegol a gwasanaethau cwnsela. Yn y tymor hwy, efallai y bydd angen cefnogaeth bellach er mwyn sicrhau bod teuluoedd gydag anawsterau hirsefydledig yn gallu parhau i ymdopi'n dda yn y dyfodol.

Meysydd allweddol i'w datblygu wrth symud ymlaen

Y canfyddiad oedd bod yr IFSS **yn llai llwyddiannus lle'r oedd gan deuluoedd fywydau anhrefnus iawn a nifer o faterion difrifol i fynd i'r afael â hwy ar yr un pryd.** Mae amseriad yr ymyrraeth a lefel yr ysgogiad o fewn y teulu hefyd fel petaent yn bwysig iawn.

Mater 1 i'w ystyried: fel yr amlygwyd yn yr adroddiadau gwerthuso interim, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr IFSS yn ymddangos fel petai'n ymyrraeth polisi effeithiol ar gyfer cefnogi teuluoedd i symud oddi wrth 'argyfwng' neu 'bwynt di droi'n ôl' posibl. Fodd bynnag, efallai na fydd y rhaglen yn mynd i'r afael yn wirioneddol â'r stoc bresennol o deuluoedd sydd wedi mynd drwy argyfwng yn y gorffennol neu rhai y mae eu bywydau yn hynod anhrefnus ac nid oes ganddynt yr ysgogiad i newid pethau. Efallai y bydd angen ymyrraeth wahanol, o bosibl dros gyfnod hwy ac wedi ei ganolbwyntio ar feithrin ysgogiad i newid, er mwyn ymgysylltu â theuluoedd o'r garfan hon ac i'w gwneud yn barod i dderbyn cefnogaeth o fath IFSS.

Pan fo teuluoedd ddim yn meddwl eu bod wedi elwa, roeddent gan amlaf yn cysylltu hyn â: **diffyg parhad gwasanaeth; cam 1 yn rhy fyr; yr IFST heb sgiliau arbenigol; bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth ehangach; ac i**

ryw raddau, aelodau'r teulu ddim yn ymgysylltu'n llawn. Fodd bynnag, nifer gweddol fechan o deuluoedd a soniodd am bob mater.

Mater 2 i'w ystyried: mae'r dystiolaeth yn awgrymu, bod hyd y rhaglen yn rhy fyr ar gyfer rhai achosion neu fod y pontio o Gam 1 i 2 yn rhy llym. Efallai bod angen cam cefnogi ychwanegol ar ôl Cam 1, pan fydd gwaith yr IFST gyda'r teulu yn parhau ond ei fod yn cael ei leihau'n raddol dros amser fel rhan o broses wedi ei rheoli. Mae'n glir o'r gwerthusiad ei bod hi'n anodd cyffredinol ynglŷn ag anghenion gwahanol deuluoedd. Fodd bynnag, efallai y byddai'n synhwyrol i gynnal cynllun peilot o'r cam ychwanegol hwn a gwneud hyn ar safleoedd Cam un o gofio mai hwy sydd â'r mwyaf o brofiad.

Mae'n amlwg bod yr **IFSS dim ond mor dda ag yw'r gweithwyr IFST sy'n darparu'r gefnogaeth ddwys i deuluoedd.** Ni ellir, ac ni ddylid, tanamcangyfrif pwysigrwydd bod â staff sydd â'r profiad, arbenigedd a'r sgiliau cywir. Mae angen barn broffesiynol yn ystod pob cam o'r broses.

Mater 3 i'w ystyried: mae llawer iawn o ddysgu a datblygu wedi digwydd dros y tair blynedd ddiwethaf yn y safleoedd Cam un. Mae'r IFST presennol wedi datblygu eu profiad dros amser. Fodd bynnag, ar y dechrau roeddent yn dibynnu'n fawr ar brofiad a ddaethant gyda hwy o feysydd eraill. Mae'r angen i aelodau a recriwtir o'r newydd i fod yr un mor brofiadol yn bwysig, ochr yn ochr ag unrhyw hyfforddiant IFSS y gellir ei gynnig iddynt.

Mae peth **ansicrwydd yn parhau ynglŷn â'r ffordd orau i gael y budd mwyaf o rôl y Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol (CSW).** Mynegwyd pryderon bod y rôl yn canolbwyntio fwyfwy ar weithgareddau rheoli a hyfforddi ar draul elfennau ymchwil a thrin achosion.

Mater 4 i'w ystyried: er nad yw'n broblem i CSW gymryd rhagor o gyfrifoldeb rheoli tîm IFST, mae'n hollbwysig bod cydbwysedd eu gweithgareddau yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'n hanfodol bod y CSW yn cadw eu hygreddedd proffesiynol sy'n dod o gael llwyth achos cydnabyddedig.

Mae'r IFSS yn **dibynnu'n drwm ar swm ac ansawdd yr atgyfeiriadau sy'n dod gan y timau gweithwyr cymdeithasol.** Gwnaed cynnydd yn y maes hwn yn ystod blwyddyn 3 ond mae heriau yn parhau.

Mater 5 i'w ystyried: mae'r dystiolaeth o'r safleoedd Cam un yn dangos faint o adnoddau y mae'n rhaid eu buddsoddi mewn codi ymwybyddiaeth o'r IFSS, gan greu perthynas effeithiol gyda thimau gweithwyr cymdeithasol a phartneriaid ehangach (er mwyn gwreiddio offer ac arferion IFSS). Yn ogystal, o gofio lefel sylweddol y newid mewn staff a welwyd ar draws y timau gweithwyr cymdeithasol sy'n atgyfeirio, mae'n debygol y bydd angen parhaus i'r gwaith hwn gael ei wneud i'r dyfodol.

O ran trwygyrch, mae'r perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda lleihad mewn gallu yn awgrymu y **gallai gweithwyr IFST ddelio â dau achos ar yr un pryd (lle mae un yn dechrau a'r llall yn gorffen y cam dwys)**.

Mater 6 i'w ystyried: o ystyried y cynnydd yn y trwygyrch gyda lleihad mewn gallu, roedd cefnogaeth ar draws y safleoedd i archwilio'r opsiwn o weithwyr IFST yn cymryd dau achos ar unrhyw adeg benodol. Byddai angen monitro'r sefyllfa yn ofalus gan y bydd angen amser gweithiwr IFST ychwanegol ar achosion mwy cymhleth neu waith gyda theuluoedd mwy eu maint. Gallai fod yn briodol i gynnal rhaglen beilot o'r dull hwn ar un o safleoedd Cam un.

Mae gweithgaredd monitro ar draws y safleoedd yn parhau'n anghyson.

Mater 7 i'w ystyried: byddai dull mwy strwythuredig a systematig ar draws pob safle, o ran monitro, gosod targedau a gwerthuso, yn fuddiol a byddai'n cynorthwyo penderfyniadau cynllunio strategol. Yn fwy penodol, dylid ystyried maint y galw ar gyfer ymyrraeth IFSS yn lleol wrth ariannu ac wrth wneud penderfyniadau eraill megis maint a ffurf yr IFST. Yn ogystal, dylid olrhain buddiolwyr dros amser fel y gellir asesu'n gadarn gynaliadwyedd effeithiau'r IFSS.